



BWRDD CYD LYWODRAETHU

**1 Mawrth @ 10:00
AR-LEIN**

PRESENNOL:

Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Cadeirydd)[KJ]
Rachel Barber, Cadeirydd, Cydbwyllgor Archwilio [RB]
James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Sian Beck, Dirprwy Brif Arolygydd Dros Dro
Helen Cargill, [HG] TIAA
Sarah Davies, Arweinydd JAC ar Foeseg a Llywodraeth [SD]
Guto Edwards, Pennaeth Cyllid [GE]
Stephen Hughes, Prif Weithredwr [SH]
Sian Wyn Jones, Cydlynnydd Parhad Risg a Busnes [SWJ]
Phil Kenyon, Gwasanaethau Cyfreithiol [PK]
Stephanie Maddix [SM] (cofnodion)
Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllidebau
Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau [SP]
James Sutton, Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd [JS]
Helen Williams, Cyfrifydd Rheoli Ariannol [HW]

YMDDIHEURIADAU:

Heb dderbyn dim

287. COFNODION

Gwnaeth y Bwrdd adolygu a chymeradwyo cywirdeb y cofnodion blaenorol.

288. COFNOD GWEITHREDIADAU

Nid oedd gweithrediadau agored nac yn weddill o'r cyfarfod blaenorol.

289. ADOLYGIAD O'R LLAWLYFR LLYWODRAETHU A'I RANNAU CYFANSODDOL

Nododd SWJ y byddai'r Cod Llywodraethu Corfforaethol angen cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu ein sefyllfa bresennol gyda'r broses mapio sicrwydd. Dylai hefyd adlewyrchu'r gwaith a gwblhawyd i ddiweddarau pob polisi dros y 12 mis diwethaf.

GWEITHREDIAD: SWJ i anfon manylion at KJ tu allan i'r cyfarfod er mwyn diweddarau'r Cod Llywodraethu Corfforaethol o ran y gwaith a wnaed ar bolisiau'r heddlu a'r broses mapio sicrwydd.

Cymeradwywyd y Llawlyfr Llywodraethu yn y Bwrdd Gweithredol Strategol ym mis Awst 2021 gyda chymeradwyaeth gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. Felly, nid ydym yn chwilio am archwiliad sylfaenol ond gwahoddwyd aelodau roi unrhyw sylwadau fel rhan o'r adolygiad Llawlyfr Llywodraethu hwn.

GWEITHREDIAD: Aelodau i adolygu'r Llawlyfr Llywodraethu a rhoi unrhyw sylwadau o fewn 3 wythnos.

290. ADOLYGU DRAFFT CYNTAF Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynodd KJ ddrafft cyntaf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Bwrdd a gofynnodd am adborth.

Dywedodd RB er bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gadarn, mae angen tystiolaethu pa mor effeithiol ydy'r llywodraethu sydd gennym mewn lle, gan gynnwys cydnabod unrhyw welliannau y gellid eu gwneud.

Eglurodd SP sut y cafodd y Datganiad archwiliad mawr 12 mis yn ôl, lle adolygwyd nifer o Ddatganiadau Heddluoedd eraill Cymru er mwyn coethi ein Datganiad. Cytunodd gyda RB y dylai'r Datganiad fod yn adolygiad hanfodol o effeithiolrwydd y llywodraethu sydd gennym mewn lle.

GWEITHREDIAD: SP i ddiweddarau naratif y Datganiad er mwyn adlewyrchu effeithiolrwydd y llywodraethu sydd gennym mewn lle, wrth gydnabod unrhyw welliannau y gellid eu gwneud.

Nododd SWJ y byddai'r strwythur llywodraethu ar dudalen 16 angen cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu digomisiynu'r Bwrdd Cynllunio ac Adfer Strategol. Byddai gwerth hefyd cyfeirio bod y broses mapio sicrwydd wedi'i hymgorffori i'r fframweithiau risg, gan nad oes sôn am hyn o fewn y paragraff Rheoli Risg. Cytunodd SP y byddai angen ymgorffori cynnwys y broses mapio sicrwydd i'r naratif ond hefyd i'r cynllun gweithredu tuag at ddiwedd y ddogfen.

GWEITHREDIAD: SWJ i anfon y strwythur llywodraethu presennol at KJ er mwyn ei gynnwys o fewn y Datganiad. SWJ hefyd i baratoi geiriad i fynegi'r sefyllfa bresennol gyda'r broses mapio sicrwydd, gan gynnwys diweddariad ar gyfer y cynllun gweithredu.

Hysbysodd SP fod y cynllun gweithredu'n mynd gyda'r cyfrifon statudol sy'n golygu fod rhywfaint o oedi. Codwyd gweithrediad y fframwaith sicrwydd ychydig o flynyddoedd yn ôl. Er y gwnaed cynnydd, nid oedd i bwynt lle gellid ei gymeradwyo. Dyna pam ei fod wedi'i gario ymlaen i'r Datganiad canlynol.

GWEITHREDIAD: JS i roi diweddariadau am swyddi ar gyfer y gweithrediadau a restrir o fewn cynllun gweithredu llywodraethu'r Datganiad.

Gofynnodd KJ i'r gweithrediadau sy'n gysylltiedig â'r Datganiad gael eu cwblhau erbyn dydd Gwener 4 Mawrth, fel y gellir cyflwyno'r ddogfen ddiweddaredig i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.

291. STRWYTHUR LLYWODRAETHU

Hysbysodd SWJ y Bwrdd fod penderfyniad wedi'i wneud yn yr SLT i ddigomisiynu'r Bwrdd Adfer Strategol. Hysbyswyd fod llawer o'r gwaith yn cael ei reoli gan Fyrddau eraill rŵan. Byddai'r Strwythur Llywodraethu yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r newid hwn.

Rhannodd RB ei thybiaeth fod gwaith y Bwrdd Adfer Strategol wedi dod yn fusnes fel arfer. Dyna pam nad oedd angen y Bwrdd bellach, ond fe gwestiynodd a oedd dysgu wedi bod o ganlyniad i gael y Bwrdd hwnnw adeg COVID ac ar ba bwynt byddai rhaid creu'r Bwrdd hwn eto.

Adlewyrchodd SWP, gan fod COVID yn broblem tymor hirach nac a ddisgwyliwyd i ddechrau pan sefydlwyd y Bwrdd, nad oedd y Bwrdd yn ôl pob tebyg wedi cyflawni'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w wneud. Mae cyfarfodydd Arian ac Aur COVID yn parhau. Felly nid ydym wedi cyrraedd cyfnod adfer eto. Serch hynny, roedd y Bwrdd wedi creu gwaith i sicrhau fod gan bob adran gynlluniau parhad

busnes, nid ond meysydd busnes lefel hanfodol ac uchel. Ychwanegodd y byddai gwerth mewn ailsefydlu'r Bwrdd pe bai yna fater tymor byr y byddai angen gweithredu arno er mwyn ein symud ni ymlaen.

Ychwanegodd SP fod y Bwrdd yn sicr â diben yn nyddiau cynnar ei gychwyniad, gan y cafodd ei sefydlu i gadw llygad ar adferiad tymor hirach ochr yn ochr â'r grŵp Aur gweithredol. Pontiodd y bwlch rhwng y gwneud penderfyniadau Aur gweithredol a'r penderfyniadau a oedd a goblygiadau tymor hirach i'r sefydliad, er enghraifft penderfyniadau penodol ynghylch agweddau AD.

GWEITHREDIAD: SWJ i roi geiriad a ellir ei ymgorffori i'r Datganiad er mwyn mynegi fod gan y Bwrdd Adfer Strategol ddiben ond ei fod bellach yn cael ei ddal o fewn busnes fel arfer.

292. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION YR ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Diweddarodd HC y Bwrdd ar adolygiad dilynol TIAA. Gwnaethant adolygu 35 o argymhellion P1 a P2. Roedd saith yn weddill, er fe nododd nad oedd pump yn ddyledus ar adeg yr adolygiad. Roedd y rhain yn berthnasol i un ar gyfer yr archwiliad cydymffurfriad RhDDC, pump o Office 365 ac un gan reolwyr iechyd a diogelwch. Byddai'n diweddarau'r olrheiniwr er mwyn sicrhau ei fod yn dangos sefyllfa gywir.

Mae'r argymhelliad iechyd a diogelwch yn berthnasol i hyfforddiant y swyddogion tân. Hysbysodd HC eu bod wedi cofnodi fod hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i ohirio oherwydd COVID-19 a bod angen amser i sicrhau fod pob swyddog yn cael eu dal oherwydd cyfyngiadau lle ar gyfer y cyrsiau hyfforddiant. Ychwanegodd AM fod yr holl swyddogion tân yn y Gorllewin, lle'r oedd yr archwiliad wedi digwydd, wedi cael eu rhoi ar gyrsiau, gyda'r swyddog diwethaf i gael eu hyfforddi erbyn diwedd mis Mawrth.

Amlinellodd SP y broses sydd wedi digwydd i ddrafftio'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ychwanegodd fod rhai elfennau "risg confensiynol" o reolaeth ariannol a ddylai gael eu hadolygu bob amser fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol. Mae hyn yn cynnwys cyflogres, cyfrifon taladwy a rheoli'r trysorlys gyda gweddiill y cynllun yn fwy hyblyg o ran ymdriniaeth risg.

Diolchodd RB i AM am yr ymgysylltu a'r cyfle cynnar i nifer o aelodau allweddol y CA adolygu a rhoi mewnbyn i'r cynllun archwilio mewnol drafft. Gofynnodd am fanylion pellach ynghylch sicrwydd cyfyngedig yr asedau TG a hefyd y sefyllfa o ran dyddiau archwilio'n cael eu cario drosodd

Mae sicrwydd cyfyngedig rheoli asedau TG yn y cyfnod drafft ond mae'r canfyddiadau'n berthnasol i gyflawni cofrestr sefydlog o holl asedau sy'n cael eu rhoi i weithwyr. Mae'r tîm rheoli'n gweithio drwy nifer o argymhellion ond dylid nodi fod ein swyddogaeth TGCh ar hyn o bryd yn cael ei allanoli'n bennaf. Er bod cylch gorchwyl ar gyfer ein cyflenwr i ddarparu rheoli asedau, mae bylchau ar hyn o bryd yn y gwasanaethau hynny. Ychwanegodd GE y gall peth o hyn arwain o'r gofyniad i anfon staff i weithio o'r cartref ar ddechrau pandemig COVID-19.

Mewn ymateb i ohirio dyddiau archwilio, hysbysodd HC fod problem wedi bod o ran yr aelod staff a oedd wedi bod yn gweithio ar y gyflogres ac archwiliad credydwy'r a oedd wedi oedi cynnydd. Oherwydd bod yr amseru'n rhy agos i ddiwedd y flwyddyn, roedd wedi bod yn anodd i HGC hwyluso hyn. Felly dyna pam y cafodd y rhain eu gohirio. Fodd bynnag, roedd y ddau archwiliad wedi derbyn sicrwydd sylweddol y flwyddyn flaenorol. Felly roedd TIAA yn hyderus fod y rheolaethau mewn lle yn gweithio. Ychwanegodd fod TIAA yn fodlon na fyddai gohirio'r 2 archwiliad hwnnw yn effeithio ar y farn flynyddol.

293. ADOLYGIAD O NODIADAU BRIFFIO CLEIENT/RHYBUDDION TWYLL WEDI EU CYHOEDDI GAN ARCHWILIAD MEWNOL

Hysbysodd AM fod popeth ar y cofnod CBN wedi'i orchwyllo a'i gau.

Ni chodwyd cwestiynau.

294. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd KJ gofnod gweithrediadau diweddaredig y Cydbwyllgor Archwilio er mwyn i aelodau adolygu'r rhai hynny sy'n berthnasol i lywodraethu.

Dywedodd SP fod ychydig o weithrediadau ar gyfer archwilio mewnol. Byddai'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio drwy'r adroddiad a gyflwynwyd ar gyfer papurau agenda.

Cadarnhaodd SD y gofynnwyd iddi fel un o aelodau'r CA i fod ynghylch y broses caffael archwilio mewnol cydweithredol.

295. DIWEDDARIAD SICRWYDD

Siaradodd SWJ drwy'r adroddiad a roddwyd gyda'r papurau agenda a gylchredwyd o flaen llaw.

Cwestiynodd SD y rhesymeg am risgiau mapio sicrwydd a oedd un ai dros 12 mis neu wedi cau. Sicrhaodd SWJ fod popeth a gofnodwyd ar y gofrestr risgiau wedi'u rheoli drwy'r broses honno. Fodd bynnag, mae'r broses mapio sicrwydd yn rhoi adroddiad at wraidd y mater i'r risgiau hirhoedlog hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n barhaus fel y disgrifiwyd. O ran y risgiau a gaewyd, hysbysodd eu bod yn cadw mewn cof fod y ffaith y gall risgiau barhau unwaith maent wedi'u tynnu o'r gofrestr risgiau. Felly, y broses mapio sicrwydd ydy cadarnhau eu bod yn cael eu rheoli'n addas gyda'r mesurau sydd wedi'u rhoi mewn lle.

Hysbysodd SWP fod newidiadau polisi yn cael eu cymryd drwy'r Bwrdd Sicrwydd. Rhan o'r broses ydy i'r perchennog polisi gwblhau ffurflen yn amlinellu pa newidiadau sydd wedi'u gwneud, gan gynnwys cynllun gweithredu. Gall trosglwyddo'r newidiadau hyn ddilyn sawl dull, gan gynnwys cylchredeg drwy e-bost a gorchwylion wythnosol. Ar brydiau, gall y perchennog polisi ddarparu hyfforddiant penodol neu sesiynau briffio.

Holodd RB am sut y ymdriniwyd â'r adolygiad llywodraethu blynyddol. Heriodd edrych arno'n wahanol i'r llynedd er mwyn defnyddio'r manteision, gan awgrymu edrych ar heddluoedd eraill. Eglurodd SWJ, oherwydd bod yr adolygiad wedi'i oedi llynedd, mae'r ymdriniaeth yn eithaf tebyg.

296. PROBLEM CYDYMFFURFIO O RAN GORCHMYNION SEFYDLOG

Cyflwynodd KJ yr adroddiad gan egluro ei bod wedi dod yn amlwg fod rhywun wedi gwneud cytundeb gyda chwmni heb fynd drwy'r prosesau caffael iawn. Yn ystod yr ymchwiliad i ddeall yr hyn ddigwyddodd, roedd hysbysiad o dan adran 114 oherwydd torri rheolau caffael wedi'i ystyried, gyda'r Pennaeth Caffael a Phennaeth yr Adran Gyfreithiol. Penderfynwyd fod y toriad wedi bod oherwydd diffyg gwybodaeth ac nad oedd yr unigolyn wedi gwneud penderfyniad maleisus bwriadol. Cydnabuwyd hefyd fod y broses gywir wedi'i dilyn. Byddai'n debygol mai'r un cwmni fyddai wedi'i ddewis. Mae nifer o gamau ataliol wedi'u cymryd ers hynny er mwyn sicrhau y dysgir gwersi.

Mae'r rheolau a'r prosesau caffael wedi'u trosglwyddo i uwch reolwyr o fewn y sefydliad a'u codi o fewn y fforymau llywodraethu a ddilynodd – Bwrdd yr Uwch Reolwyr, a gadeiriwyd gan y Prif Gwnstabl a'r Uwch Fwrdd Cyllid ac Adnoddau sydd ag eitem ymroddedig ar gadernid a chydymffurfiaeth.

Holodd RB a oedd mecanwaith cadarn er mwyn sicrhau fod y trosglwyddiadau hyn yn cynnwys y rheolau a'r prosesau caffael wedi'u derbyn a'u deall yn effeithiol.

Sicrhodd SP fod yr Adran Gaffael wedi ceisio cynyddu eu proffil o fewn y sefydliad. Ychwanegodd GE fod y rhai hynny sy'n trin cytundebau bob dydd fel Rheolwyr Busnes a chydweithwyr mewn Cyllid, TG a Stadau â dealltwriaeth dda o'r rheolau a'r prosesau caffael. Y disgwyliad ydy y byddai'r rhai tu allan i'r rolau hynny yn mynd at yr Adran Gaffael am arweiniad pe baent angen gwasanaeth caffael o gwbl. Sicrhodd fod cydymffurfio gyda rheolau caffael yn cael ei fonitro'n barhaus.

297. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYLCH GORCHWYL

Cytunodd aelodau fod y cyfarfod yn parhau'n effeithiol ac yn werthfawr, ac mae diben y cyfarfod yn glir o fewn y cylch gorchwyl.

298. ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH YMLAEN

GWEITHREDIAD: KJ i adolygu'r hysbysiad o'r TIAA o ran cyhoeddiadau ac ystyried ychwanegu cynllun gwaith y dyfodol i'r fforwm hwn fonitro ai peidio.

Ar ben y drafodaeth yn eitem 295, dywedodd JS fod RB yn gwneud pwynt teg o ran cymryd cam gwahanol ar gyfer yr adolygiad llywodraethu blynyddol. Ond fe gynigiodd ein bod yn parhau fel ag yr ydym am y tro, er mwyn dod a'r adolygiad llywodraethu yn unol â'r amserlen flynyddol gan fod adolygiad llynedd wedi'i oedi. Cynigiodd wedyn fod gennym eitem agenda yn y cyfarfod nesaf i ysgogi adolygiad gweithredol o'r llywodraethu'n ffurfiol. Cytunwyd fod cydbwysedd rhwng amseroldeb yr adolygiadau hyn a sicrhau fod y llywodraethu'n gadarn ac effeithiol.

GWEITHREDIAD: SM i ychwanegu 'Ymdriniaeth i Adolygiad Llywodraethu Blynyddol' i gynllun gwaith y dyfodol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

299. UNRHYW FATER ARALL

Nid chodwyd mater arall.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mercher 22 Mehefin 2022 – 10:00